

Each year, the James Pantyfedwen Foundation distributes grants to postgraduate students studying for a Masters or PhD award.

The closing date for applications is the end of June.

Grants will be offered towards the payment of tuition fees only.

Applicants must have a permanent address in Wales during the three years immediately preceding the date of application (note: a term-time address as a college or university student in Wales does NOT fall within this category). All applicants must also EITHER have been born in Wales OR have one parent who had been born in Wales, OR have been for an aggregate period of not less than seven years a regular pupil or student at any educational institution(s) in Wales.

Applications can only be considered for postgraduate study and some priority is currently given to those students undertaking postgraduate research work.

In all cases the grants will be for the payment of tuition fees only, up to a maximum of £7,000.

The Foundation does not, in any circumstances, supplement awards provided by Local Education Authorities and Research Councils.

The closing date for applications for courses which start **any time during the 2018-19 academic year** is **30 June 2018**.

Currently the Foundation does NOT consider applications of the following types:

- (i) undergraduate courses (including intercalated degree courses in medical science)
- (ii) courses at institutions which have not been approved by the Department of Education
- (iii) higher degrees where students already have a higher degree (this does not exclude progress from a Master's degree to a PhD)
- (iv) Accounting training courses
- (v) private tuition (e.g. for music students)
- (vi) PGCE Courses
- (vii) postgraduate training courses in social work
- (viii) CPE Course in Law (but Legal Practice Courses are permitted)
- (ix) Masters' courses of more than one year's duration, although the Foundation is prepared to consider assistance for the second and final year of full-time study.

For further information or to obtain an application form, please contact:

James Pantyfedwen Foundation, 9 Market Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL

E-mail: post@jamespantyfedwen.cymru

or visit the website at: www.jamespantyfedwen.cymru

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn cynnig grantiau'n flynyddol i fyfyrwyr uwchraddedig sy'n astudio am radd Meistr neu PhD. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ddiwedd Mehefin bob blwyddyn. Cynigir y grantiau tuag at gostau ffioedd yn unig.

Rhaid bod gan ymgeiswyr gyfeiriad parhaol yng Nghymru yn ystod y tair blynedd cyn cyflwyno cais (noder: nid yw cyfeiriad coleg neu brifysgol yng Nghymru ynddo'i hun yn ddigon).

Rhaid hefyd i bob ymgeisydd fod NAILL AI wedi ei (g)eni yng Nghymru, NEU fod ag un o'i r(h)ieni wedi eu geni yng Nghymru, NEU fod wedi treulio cyfnod o saith mlynedd neu fwy fel disgybl neu fyfyrwr mewn unrhyw sefydliad(au) addysgol yng Nghymru.

Rhoddir ystyriaeth i geisiadau uwchraddedig yn unig, gan roi rhywfaint o flaenoriaeth i waith ymchwil.

Mewn pob achos mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau sy'n cyfateb i faint y ffioedd dysgu yn unig, hyd at uchafswm o £7,000.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth, ar unrhyw amod, yn ychwanegu tuag at grantiau a delir gan awdurdodau lleol a chynghorau ymchwil.

Y dyddiad cau ar gyfer cyrsiau sydd yn cychwyn **unrhyw dro yn ystod y flwyddyn academiaidd 2018-19 yw 30 Mehefin 2018.**

Ar hyn o bryd NID yw'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ceisiadau o'r mathau canlynol:

- (i) cyrsiau gradd gyntaf (gan gynnwys gradd 'intercalated' mewn meddygaeth)
- (ii) cyrsiau mewn sefydliadau nad ydynt wedi'u dilysu gan Adran Addysg y Llywodraeth
- (iii) graddau uwch pan fod gradd uwch gan y myfyrwr yn barod (nid yw hyn yn cau allan myfyrwyr sydd yn symud o radd Meistr i Ddoethuriaeth)
- (iv) cyrsiau hyfforddiant mewn Cyfrifeg
- (v) cymorth preifat (e.e. i fyfyrwyr cerdd).
- (vi) cyrsiau hyfforddi athrawon
- (vii) cyrsiau hyfforddi mewn gwaith cymdeithasol
- (viii) cyrsiau CPE yn y gyfraith (ond caniateir cyrsiau 'Legal Practice')
- (ix) cyrsiau Meistr mwy na blwyddyn. Pan mae myfyrwr yn dilyn cwrs Meistr dwy flynedd yn llawn amser mae'r Ymddiriedolaeth yn barod i ystyried ceisiadau am yr ail flwyddyn o astudio.

Os am wybodaeth bellach neu ofyn am ffurflenni cais, cysyllter ag:

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL

E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru

neu fynd i'r wefan ar: www.jamespantyfedwen.cymru